**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, IECHYD A LLES (PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU PWNC 2 YN FLAENOROL) - DYDD IAU, 12 MAWRTH 2026**

COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, IECHYD A LLES (PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU PWNC 2 YN FLAENOROL) GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR – Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB YMLAEN DYDD IAU, 12 MAWRTH 2026 YN 10:00

Presennol

Cynghorydd F D Bletsoe – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S J Bletsoe | C Davies | P Davies | R Williams |

Presennol o bell

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | P Ford | D M Hughes | J Llewellyn-Hopkins |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

S Easterbrook, RM James, P W Jenkins, W J Kendall ac M Lewis
Michelle Phelps, Rheolwr Byw â Chymorth

Gwahoddedigion

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Jane Gebbie | Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Kelvin Barlow | Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion |
| Shagufta Khan | Arweinydd Gwaith Cymdeithasol mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion |
| Mark Wilkinson | Rheolwr Grwp - Anabledd Dysgu, Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau |
| Jane Lewis | Rheolwr Grŵp, Gwasanaethau Darparwyr Gofal Uniongyrchol |
| Ceri Williams | Rheolwr Gwasanaeth Darparwyr, Anableddau Dysgu, Iechyd Meddwl & Gwasanaethau Cysylltiedig |
| Aimee Bowen | Uwch Arbenigwr Ymddygiad |
| Cynrychiolydd o People First | |

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Jessica Mclellan | Swyddog Craffu |

Datganiadau o Fuddiannau
F D Bletsoe – Personol – Eitem 4 – Llywodraethwr yn Ysgol Heronsbridge

Eitem 6 - Mewn trafodaethau ynghylch argymhelliad posibl i weithio'n agos gyda'r sector rhentu preifat:
S J Bletsoe – Rhagfarnus - Mewn gwaith cyflogedig gyda Chymdeithas Landlordiaid Preswyl Cenedlaethol a
F D Bletsoe – Personol - Ei gŵr yn gweithio yn y Sector Rhentu Preifat

## 61. Cymeradwyaeth Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles dyddiedig 23 Ionawr 2026 yn gofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 12 Mawrth 2026 |

## 62. Adroddiad Diweddaru: Rhaglen Drawsnewid Anableddau Dysgu

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Diolchodd y Pwyllgor i'r Gwahoddedigion oedd yn Ddefnyddwyr y Gwasanaeth a'r Swyddogion Cymorth am fod yn bresennol yn y cyfarfod ac am eu cyfraniadau gwerthfawr i'r trafodaethau<br><br>Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gydag Aelod o'r Cabinet, Swyddogion a Gwahoddedigion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol ynghyd â chais am wybodaeth ychwanegol.<br><br>**Argymhellion**<br><br>1. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch y ffordd y cyflwynwyd y wybodaeth oedd wedi ei chynnwys yn y tablau yn yr adran o'r adroddiad oedd yn ymdrin â'r goblygiadau ariannol ac nad oedd yr |

| | |
|---|---|
| | effaith ar Ddefnyddwyr Gwasanaeth na'u llais yn cael ei adlewyrchu yn yr adroddiad er bod ymatebion llafar yn cyfeirio at y ddau. **Argymhellodd** y Pwyllgor y dylai'r Gyfarwyddiaeth adolygu ei dull o ysgrifennu adroddiadau, gan annog awduron eu hadroddiadau i fabwysiadu dull oedd yn cynnwys yr effaith ar Ddefnyddwyr Gwasanaeth ac yn sicrhau bod eu llais yn cael ei gynnwys yn ogystal â data, a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddadansoddi'r wybodaeth a dderbyniwyd gan yr adran Gyllid a'i chyflwyno'n glir ac yn hawdd ei deall mewn adroddiadau, ar gyfer Aelodau a'r cyhoedd.<br><br>2. Bu'r Pwyllgor yn trafod y 3 swydd ychwanegol a grëwyd i sefydlu a chyflymu cynnydd hyd at fis Ebrill 2027. Cafodd y rhain eu sicrhau drwy gyfuniad o dwf ac ailbroffilio cyllid grant. Mynegodd y Pwyllgor bryder hefyd ynghylch y risg o beidio â sicrhau cyllid grant pellach ac **argymhellodd** y dylid ystyried gwneud y swyddi yn rhai parhaol a'u hariannu o'r gyllideb sylfaenol.<br><br>3. Clywodd yr Aelodau gan Ddefnyddwyr y Gwasanaeth yr hoffent gael mynediad at fwy o gyrsiau coleg ond bod nifer y cyrsiau oedd yn cael eu cynnig wedi lleihau a'u bod wedi eu tanysgrifio'n llawn. Mynegodd y Pwyllgor bryder bod y galw am y gwasanaeth yn dechrau cynyddu, yn enwedig i bobl iau a ph'un a fyddai agor campws newydd y coleg yn golygu y byddai'n haws cael ar gyrsiau, gan gynnwys cyrsiau wedi eu hanelu'n benodol at y rhai oedd â rhwystrau i ddysgu ac **argymhellodd** ysgrifennu llythyr at brifathro'r coleg i ofyn iddo roi mwy o eglurder ynghylch y sefyllfa.<br><br>4. Clywodd y Pwyllgor hefyd gan Ddefnyddwyr y Gwasanaeth ynghylch yr amser aros hir ar y gofrestr tai ac **argymhellodd** ysgrifennu llythyr at Reolwr y Grŵp Tai yn mynegi pryder y Pwyllgor ac yn gofyn iddo ystyried gweithio'n agosach gyda'r sector rhentu preifat gyda'r nod o leihau amseroedd aros.<br><br>**Cais am Wybodaeth Ychwanegol**<br><br>5. Yn dilyn gwahoddiad i Aelodau gan y Defnyddwyr Gwasanaeth i fynychu cyfarfodydd y Grŵp 'Dweud Ein Dweud', **gofynnodd** y Pwyllgor am ddyddiadau'r cyfarfodydd oedd i ddod a'r manylion cyswllt angenrheidiol er mwyn trefnu i fynychu cyfarfod. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 12 Mawrth 2026 |

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

## 63. Polisi Cludiant â Chymorth

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gydag Aelod o'r Cabinet, Swyddogion a Gwahoddedigion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhelliad canlynol a cheisiadau am wybodaeth ychwanegol.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>6. **Argymhellodd** y Pwyllgor ddarparu fersiwn o'r Polisi fyddai'n hawdd ei ddarllen ac ar gael.<br><br>**Ceisiadau am Wybodaeth Ychwanegol**<br><br>7. Bu'r Pwyllgor yn trafod Adran 6 y Polisi Cludiant â Chymorth, oedd yn rhestru'r amgylchiadau pan na fyddai unigolion fel rheol yn gymwys i dderbyn cludiant a **gofynnodd** am enghreifftiau o'r adegau y byddai unigolion yn gymwys i gael cludiant â chymorth yn unol â'r Polisi.<br><br>8. **Gofynnodd** y Pwyllgor beth oedd y rhesymau pam yr oedd cyllideb Gwasanaethau Dydd y Gyfarwyddiaeth yn ariannu cludiant rhai unigolion o'u cartref i'r coleg yn hytrach nag o rywle arall. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 12 Mawrth 2026 |

## 64. Diweddariad ar y Flaenraglen Waith

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Flaenraglen Waith yn Atodiad A, yn amodol ar drefnu'r eitemau canlynol, yn nodi'r Daflen Monitro Gweithredu Argymhellion yn Atodiad B, yr adroddid am y Flaenraglen Waith fel yr oedd wedi ei chymeradwyo gan y Pwyllgor wrth gyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol:<br><br>1. Cymorth i rai yn Gadael Gofal;<br>2. Amddiffyn Plant; a |

| | |
|---|---|
| | 3. Gwasanaethau Iechyd Integredig / Pecyn Oedi Gofal. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 12 Mawrth 2026 |

## 65. Materion Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Dim. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 12 Mawrth 2026 |

Er mwyn gwylio trafodaeth bellach a gynhaliwyd ynghylch yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen yma os gwelwch yn dda

Terfynwyd y cyfarfod yn 12:43.

**This document is available in English / Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**